EGLWYS UNEDIG GYMRAEG
LLANDUDNO

Y CWLWM

RHIFYN

MAI - AWST, 2010

Y CWLWM

EGLWYS UNEDIG GYMRAEG LLANDUDNO

MAI - AWST 2010
" Deuwch ac Addolwn"

MAI

2 Mr David R. Williams, Penmaenmawr (Bore yn unig)
9 Parch W. Gareth Edwards, Porthmadog
16 Parch Eifion Jones, Dinbych
23 Y Gweinidog (Cymun – Bore)
30 Parch Eric Greene, Y Bala

MEHEFIN

6 Y Gweinidog
13 Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon (Cymun – Bore)
20 Parch Trefor Jones, Caernarfon
27 Y Gweinidog

GORFFENNAF

1 Cymanfa'r Plant (Bore) Y Gweinidog - Prynhawn
11 Parch John Lewis Jones, Bae Colwyn (Cymun – Bore)
18 Mr Oswyn Evans, Penmaenmawr
25 Mr. Alan Phillips, Bae Colwyn

AWST (OEDFA'R BORE YN UNIG)

1 Parch J. Roger Roberts. Llandudno
8 Mr Meurig Edwards, Bae Penrhyn
15 Parch T. E. Williams, Henllan
22 Y Gweinidog
29 Parch Ieuan Lloyd, Llanfairpwll

Croeso cynnes iawn i chi i gyd

CYFARCHIAD Y GWEINIDOG

4 Rhiwledyn,
Craigside,
Llandudno.

Ffôn: 01492 543064

Ebrill, 2010

Annwyl Gyfeillion,

Mae'n fraint cael eich cyfarch wrth gyflwyno y rhifyn diweddaraf o'r Cwlwm. Anfonaf atoch fy nghofion gan hyderu eich bod mewn iechyd a dedwyddwch. Gwn na fu i bawb fwynhau iechyd cystal ag y dymunent dros y gaeaf, a bu yn ddigon anodd ar nifer ohonoch. Gobeithio eich bod yn well ar ôl gaeaf a fu'n hir mewn mwy nag un ystyr.

Wrth edrych allan drwy'r ffenestr y mae'n braf iawn ar hyn o bryd ac arwyddion Gwanwyn yn amlwg yn yr ardd. Bu'r Gaeaf diwethaf yr un caletaf ers rhyw ddeg mlynedd ar hugain, a phan oedd yn ei anterth yn anodd credu y byddai eto unrhyw fywyd yn yr ardd. 'Rwy'n hoff o arddio ac wedi bod yn gwneud cryn dipyn dros y blynyddoedd cyn i resymau iechyd gyfyngu ar hynny. Un o'r bendithion mwyaf oedd cael dod a chynnyrch cyntaf yr ardd i'r tŷ; fel arfer codi'r gwlyddyn cyntaf o datws newydd. Rhyw naw neu ddeg wythnos yn gynharach y cafodd y tatws had eu plannu. Tatws hen a chrebachlyd ers y flwyddyn cynt, digon difywyd yr olwg yn cael eu claddu mewn pridd oer, ond gwyddwn am y wledd fyddai i ddilyn, ac ni fyddwn yn amau na chawn y wledd yn ei thro.

Claddwyd corff rhwygredig, marw Iesu mewn bedd oer hefyd, ac er iddo ddweud wrth y disgyblion y byddai yn atgyfodi, doedd dim ymhellach o'u meddyliau fore'r trydydd dydd. Ond codi a wnaeth a rhyfeddu y disgyblion gan eu hysbrydoli a'u tanio i gyhoeddi mai Ef oedd Gwaredwr croeshoeliedig ac atgyfodedig y byd. Pwy feddyliai y byddai corf Crist ar y ddaear, sef yr Eglwys yn rhifo 2 biliwn o bobol erbyn hyn. " Os nad yw'r gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear ac yn marw, y mae'n aros ar ei ben ei hun; ond os yw yn marw, y mae'n dwyn llawer o ffrwyth, " Ioan 12:24. Marwolaeth cyn atgyfodiad yw'r drefn Gristnogol bob tro. Trwy aberth Iesu a'i atgyfodiad y cawn ni y fraint o gael bod yn blant i Dduw; a sicrwydd fod ein pechodau wedi eu maddau, ein hangau wedi ei goncro a bywyd tragwyddol yn eiddo i ni. Ein braint hefyd yw marw i'r hunan a'i falchder a'i chwantau a byw i Grist. I rannu a byw y newyddion da ac ennill eraill i Grist. Braint yw cael bod yn rhan o dîm y garddwr mawr ei hun a chael hau a chasglu cnwd er ei ogoniant. Ac fe fydd cnwd dim ond i ni hau "certified seed" hau had dilys, sef Iesu Grist a hwnnw wedi ei groeshoelio a'i atgyfodi. Mae'r Crist yn fyw, a byw fydd ei Eglwys hefyd, dim ond iddi gofio a chyhoeddi ei fod yn fyw.

Boed i chwi oll fendith a chwmni y Crist byw, atgyfodedig; ac yn arbennig pawb sydd mewn unrhyw waeledd, llesgedd neu hiraeth.

Gyda chofion annwyl,

Dafydd.

LLOFFION O'R FESTRI

BLAENORIAID / DIACONIAID Y MIS

Mai

Evan W. Evans	Gwilym Williams	Dyfed Elias
John Lewis Jones	John Arfon Jones	Mai Owen

Mehefin

R. Gwynfor Roberts	Idris Davies	Chris Griffiths
Gwilym C. Williams	Myra Owen	Gwyddfid Davies

Gorffennaf

Evan W. Evans	Gwilym Williams	Dyfed Elias
John Lewis Jones	John Arfon Jones	Mai Owen

Awst

R. Gwynfor Roberts	Idris Davies	Chris Griffiths
Gwilym C. Williams	Myra Owen	Gwyddfid Davies

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Yn ystod y gaeaf cafwyd dwy sgwrs ddiddorol iawn gan y Canon E. Trefor Jones a Gwilym Charles Williams. Cynhaliwyd tri Bore Coffi: ym mis Chwefror gwnaethom elw o £224 tuag at goffrau y Gymdeithas; ym mis Mawrth cyfrannwyd £240 i Gymdeithas y Beiblau; ac ym mis Ebrill £276 i Cymorth Cristnogol. Mwynhawyd hefyd ginio blynyddol ardderchog yng Ngwesty Abaty Maenan.

BRECHDANAU I'R DIGARTREF

Mae'r Eglwys Unedig a phob Eglwys arall yn Llandudno ar y cyd a Cytun yn paratoi brechdanau yn ddyddiol i'r digartref. Ein diwrnod ni yw Dydd Gwener. Bydd y brechdanau yn cael eu paratoi ac yna eu cymryd i Eglwys Sant Ioan, Stryd Mostyn. Yno cânt eu dosbarthu yn ôl y galw. Yn aml iawn byddant yn cael paned o dê neu goffi, a chacen a bisged. Mae tua ugain yn dod am y brechdanau a'r gobaith yw y bydd canolfan ar gael yn fuan lle bydd yn bosibl cynnwys pryd cynnes.

Diolch yn fawr i'r gwirfoddolwyr o'r Eglwys Unedig sydd mor barod i helpu gyda'r ymgyrch yma.

CRONFA'R ORGAN

Yn ôl ym mis Mai 2009 cawsom wybod fod gwaith atgyweirio ar yr organ. Mae llawer o waith lledr mewn organ, ac mae hwn wedi caledu a phydru dros y blynyddoedd, a hefyd mai rhai o'r pibellau wedi gwanhau a phlygu.

Bu'r arbenigwr o Lundain yn ei gweld yn ôl ym mis Mehefin, ac 'roedd wedi synnu cael hyd i organ mor arbennig ac yn ei chyflwr gwreiddiol, yma yng Ngogledd Cymru. Mae'r peiriant gwreiddiol yn parhau i fod yn y cefn, a pheiriant dŵr oedd hwn.

Ar sail hyn fe lansiwyd apêl am arian i wneud y gwaith angenrheidiol i sicrhau na fydd yr organ yn dirywio ymhellach. Mae aelodau'r Eglwys Unedig wedi bod yn hael iawn, fel arfer, ac mae gennym £3,157 yn y coffrau hyd yn hyn.



Y targed yw £4,000, a buasem yn ddiolchgar iawn am unrhyw gyfraniad er mwyn cyrraedd y nôd cyn bo hir. Os gwelwch yn dda, rhowch yr arian neu'r siec (i'w thalu i "Cronfa'r Organ") mewn amlen a'i gyfeirio i sylw Eirys Hughes, Cronfa'r Organ.

Diolch yn fawr iawn am ymateb.

Eirys Hughes



ORGAN DRYDAN FECHAN

Mae gan yr Eglwys Unedig Organ Drydan fechan (Viscount Transistorised Organ) ac yr ydym yn awyddus i gael cartref iddi. Os oes yna unrhyw aelod â diddordeb, yna rhowch wybod i un o'r swyddogion. Efallai y carech roi rhodd i'r Eglwys fel cydnabyddiaeth amdani.

Y CYD-GYNGOR EGLWYSIG

Erbyn hyn cwblhawyd ail doi yr ysgoldy a'r tŷ capel. Cliriwyd y cypyrddau llyfrau o ystafell y diaconiaid, a pharatowyd lle i'r cyfrifiaduron yno, ond cyn eu symud byddwn yn cymhenu a phaentio dwy o'r waliau. Pan fydd y tywydd yn gwella gobeithir paentio pren tu allan i'r tŷ capel. 'Rydym hefyd yn trafod sut y gellir gwella golau trydan tu mewn i'r capel.

Fel y crybwyllais yn flaenorol, mae'n angenrheidiol rhoi sylw parhaus i gynnal a chadw yr adeiladau, ac mae gennym gynlluniau gwaith ar gyfer y misoedd a'r blynyddoedd nesaf!

Y PWYLLGOR BUGEILIOL

Bu i'r Pwyllgor Bugeiliol gyfarfod ddwywaith ers y rhifyn diwethaf o'r Cwlwm. Ymddangosodd erthyglau yn y Papurau Enwadol ar achlysur dathlu deng mlynedd fel Eglwys Unedig. Paratowyd yr erthygl gan ein Gweinidog a'r Parch John Lewis Jones.

Dechrau Ionawr cawsom gyfle i groesawu cyfeillion Bethania fel rhan o'r Eglwys Unedig, a gobeithiwn y byddant yn cartrefu yn ein plith, ac yn cael mwynhad a phleser o ymuno ymhob agwedd o waith yr Eglwys Unedig.
Ym mis Mawrth daeth nifer ynghyd ar gyfer sesiwn o hyfforddiant ar iechyd a diogelwch dan arweiniad Y Parch Meirion Morris. Sesiwn fuddiol iawn yn yr oes sydd ohoni.

Ymhob cyfarfod ceir adroddiadau manwl ar wahanol agweddau o waith yr Eglwys: Ariannol, Yr Ysgol Sul, Y Chwiorydd, a'r Cyd-Gyngor. Bydd y Pwyllgor Gweinidogaeth Bro yn cyfarfod yn fuan.

Mae cofnodion y Pwyllgor Bugeiliol ar gael os dymunir eu gweld.

CLWB HWYL HWYR Y PLANT

'Rydym wedi bod yn cyfarfod fel criw bach bron pob pnawn Dydd Iau, i gofio ac i ddysgu mwy am ein Duw; chwarae gemau amrywiol (e.e. gemau cyfri i 11, defnyddio'r cof i gofio be sydd wedi newid yn ein golwg; a'r ffefryn 'morfil a morfilod'

Mae'r tymor wedi bod yn un da wrth inni ddysgu beth yw bod yn rhan o dîm Duw, a hefyd am newyddion ffantastig Y Pasg. 'Rydym wedi cael dwy sesiwn celf hefo Anti Dilys – gwneud baner o Noa a'i Arch. Mi fydd yn edrych yn arbennig ar y diwedd!

'Rydym yn edrych ymlaen at ail gyfarfod y tymor nesaf, a chael mwynhau'r haul hefo'n gilydd. Gobeithiwn gael mynd i Goleg y Bala am ddiwrnod a chyfarfod a phawb yno.
Diolch am weddïo drosom fel Clwb.

Yr Ysgol Sul

Testun llawenydd yw gweld nifer y plant wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ac yn dod yn selog i'r Ysgol Sul. 'Rydym yn gwerthfawrogi ymroddiad y rhieni a phawb arall sy'n dod â'r plant i'r capel o Sul i Sul, ac rydym fel athrawon yn cael llawer o fwynhad yn eu cwmni.



Erbyn hyn mae gennym ddosbarth i'r plant bach dan 5 oed, dosbarth 5 - 7 oed, 8 -11 oed ac oed Uwchradd. Diolch i ymroddiad y tîm ffyddlon a brwdfrydig o athrawon. Mae eu cyfraniad a'u cydweithio hapus mor hanfodol i lwyddiant ein Ysgol Sul.

Trafodwyd yn y Pwyllgor Bugeiliol diwethaf, y lle mwyaf ymarferol i'r Gweinidog neu Bregethwr ddweud stori wrth y plant yn ystod y gwasanaeth. Dymuna'r Gweinidog siarad gyda'r plant o'r sêt fawr.

Mae hyn yn llawer mwy ymarferol oherwydd bod y meicroffon yno'n barhaol, ac felly yn fwy hwylus pan yn dangos pethau i'r plant. Ar y llaw arall rydym yn ymwybodol fod y gynulleidfa yn hoffi gweld y plant o'r seti ochr.

Felly byddwn yn eistedd yn ein seti arferol ar yr ochr ar ddechrau'r gwasanaeth, ac yna ar ddiwedd y darlleniad bydd y plant yn symud i'r seti blaen, o flaen y sêt fawr, ar gyfer y stori, gan ddychwelyd i'r seti ochr i ganu emyn y plant.

Yn ystod y tymor hwn byddwn yn paratoi ar gyfer Cymanfa'r Plant sydd i'w chynnal yn Yr Eglwys Unedig bore Sul, 4ydd. Gorffennaf. Hefyd bydd cyfle i'r dosbarthiadau gynhyrchu gwaith llaw yn seiliedig ar eu gwersi yn ystod y flwyddyn. Dewch i weld yr arddangosfa yn y festri ar derfyn y Gymanfa.

Gobeithiwn drefnu pnawn o baned ac adloniant i aelodau a ffrindiau'r Eglwys Unedig cyn diwedd y tymor. Byddwn yn falch iawn o'ch cwmnïaeth unwaith eto, ac mae ein diolch yn ddiffuant iawn am eich cefnogaeth parod i bob gweithgaredd mae'r Ysgol Sul yn ei wneud.

Byddwn yn cloi'r tymor gyda thrip yr Ysgol Sul – achlysur llawn hwyl a sbri ymhlith ein gilydd, cyn cael seibiant dros wyliau'r haf.

Rota Ysgol Sul

Tymor yr Haf 2010

Diolch i'r tîm am eich cyfraniad tuag at waith yr Ysgol Sul. Os oes unrhyw ddyddiad sy'n anghyfleus a wnewch chi ei newid, os gwelwch yn dda.

Dosbarth 3/4: Gwersi o'r wefan **amserbeibl.com** (Rhif 5,6,7,8: Abraham/ Pedr)

Dyddiad	**Dosbarth 1** o dan 5	**Dosbarth 2** 5-7 oed	**Dosbarth 3/4** 8-11 oed ac uwchradd
Ebrill 18	Siân	Laura	Judith a Delyth
Ebrill 25	Eleri	Eirian	Nia ac Eirlys
Mai 2	**Gwyliau**	**Calan**	**Mai**
Mai 9	Eleri	Laura	Beryl
Mai 16	Siân	Eirian	Dilys ac Eirlys
Mai 23	Siân	Laura	Hazel ac Ivy
Mai 30 a Mehefin 6	**Gwyliau**	**hanner**	**tymor**
Yn ystod	**mis Mehefin**	**paratoi ar gyfer**	**y Gymanfa**
Mehefin 13	Eleri gwaith llaw	Eirian gwaith llaw	Dilys/Eirlys gwaith llaw
Mehefin 20	Eleri + ymarfer	Laura - ymarfer	Hazel ac Ivy - ymarfer
Mehefin 27	Siân + ymarfer	Eirian - ymarfer	Judith/Delyth -ymarfer
Gorffennaf 4	**Gymanfa'r**	**Plant yn ein**	**Capel ni**
Gorffennaf 11	**BORE o (Pawb o'r tîm**	**HWYL + Trip yr sy'n gallu dod i**	**Ysgol Sul helpu - diolch!)**
TYMOR NESAF			
Medi 5	Siân	Laura	Beryl a Siân